

NOT PROTECTIVELY MARKED

HORIZON NUCLEAR POWER WYLFA LIMITED

DATGANIAD AR DDEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015

Mae Horizon Nuclear Power Wylfa Limited yn gwmni ynni sy'n ymwneud â datblygu cenhedlaeth newydd o orsafoedd pŵer niwclear yn y DU.

Mae Horizon yn is-gwmni sydd dan berchnogaeth gyflawn Hitachi Ltd, rhan o Grŵp Hitachi. Mae Polisi Hawliau Dynol Grŵp Hitachi yn gosod ein hymrwymiad i barchu hawliau dynol, sicrhau ein bod yn arddel yr hawliau dynol hynny ym mhob rhan o'n gwaith a gwaith ein cadwyn gyflenwi estynedig, a rhoi sylw i unrhyw effeithiau niweidiol ar hawliau dynol a allai ddigwydd.

Mae hawliau dynol yn cynnwys y rheini a ddisgrifir ym Mil Rhyngwladol Hawliau Dynol a Datganiad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol ar Egwyddorion Sylfaenol a Hawliau yn y Gwaith. Mae Erthygl 4 Datganiad Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn datgan: *Ni ddylid dal neb yn gaethwas nac mewn caethiwed; dylid gwahardd caethwasiaeth a'r fasnach gaethweision ym mhob un o'i ffurfiau.*

Rydym yn sylweddoli bod caethwasiaeth fodern a masnachu pobl yn risg ddifrifol i fusnesau y dyddiau hyn ac rydym yn benderfynol y bydd ein prosiectau adeiladu a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig yn cymryd pob cam angenrheidiol i ddiogelu unigolion rhag unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern.

Ysgrifennwyd y datganiad hwn yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Mae'n cynnwys Horizon Nuclear Power Wylfa Limited¹ a phob cwmni Grŵp Horizon, ac mae'n cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn rydym wedi'i wneud yn ystod y 12 mis ers ein datganiad diwethaf (1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017).

Ein busnes

Mae Horizon yn bwriadu darparu o leiaf 5,400MW o gapasiti cynhyrchu pŵer newydd i'r DU drwy adeiladu dwy orsaf ynni niwclear newydd, y gyntaf yn Wylfa a'r ail yn Oldbury. Gyda'i gilydd, byddant yn cynhyrchu digon o ynni i roi pŵer i oddeutu 10 miliwn o gartrefi.

Wylfa fydd y safle cyntaf i gael ei ddatblygu, ac erbyn hyn rydym yn y cam cynllunio manwl ar gyfer y safle hwn cyn i'r gwaith adeiladu allu cychwyn. Mae oddeutu 350 o staff Horizon yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd ac wedi'u lleoli yn bennaf ar ddau safle: ein pencadlys yng Nghaerloyw ac ar safle Wylfa yn gwneud gwaith technegol, yn bennaf. Gobeithir cychwyn ar y gwaith adeiladu yn 2019, ac yn ystod y gwaith adeiladu prysuraf, bydd gennym hyd at 9,000 o weithwyr adeiladu yn gweithio ar y safle yn Wylfa. Yn ogystal â hyn, bydd cadwyn gyflenwi estynedig yn darparu'r gwasanaethau, y deunyddiau a'r cynnyrch ychwanegol sydd eu hangen arnom i adeiladu'r orsaf bŵer.

Ein polisiau, ein hegwyddorion a'n safonau

Yn ogystal â Pholisi Hawliau Dynol Grŵp Hitachi, mae gennym nifer o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol eraill ar waith sy'n rheoli sut rydym yn trin ein gweithwyr a'r ffordd rydym yn disgwyl iddynt hwy ymddwyn:

- Codau Ymddygiad Grŵp Horizon a Grŵp Hitachi
- Polisi Cydraddoldeb Horizon
- Gweithdrefnau ac arferion cyflogaeth deg

¹ Mae Cwmnïau Grŵp yn cynnwys Horizon Nuclear Power Services Limited, Horizon Nuclear Power Wylfa Holdings Limited, Horizon Nuclear Power Limited a Horizon Nuclear Power Oldbury Limited.

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

- Trefn chwythu'r chwiban gyda llinell gymorth gyfrinachol ac annibynnol
- Datganiad Caffael Cynaliadwy

Rydym yn bwriadu datblygu'r polisiau, y safonau a'r gweithdrefnau i gefnogi safonau gweithle da ar y safle adeiladu yn y dyfodol a chyda'n cadwyn gyflenwi estynedig.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym eisoes wedi datblygu Gofynion Cynaliadwyedd manwl yn y contract ar gyfer ein partner Peirianeg, Caffael ac Adeiladu (EPC), y prif gontractwr ar gyfer yr orsaf bŵer ei hun ar safle Wylfa. Mae'r rhain yn cynnwys gofynion cytundebol ar gyfer rheoli hawliau dynol ar y safle ar gyfer yr holl weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan y partner EPC neu drwy ei is-gontractwyr. Rydym hefyd wedi defnyddio adnodd diwydrwydd dyladwy i wirio cydymffurfiaeth fel rhan o'n proses cymeradwyo cyflenwyr ac mae hyn yn cynnwys gwirio unrhyw dorri rheolau yn ymwneud â masnachu pobl a chaethwasiaeth.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn cyhoeddi Cod Ymddygiad Horizon ar gyfer Cyflenwyr a fydd yn cynnwys safonau penodol i ddiogelu pawb sy'n gweithio yn ein cadwyn gyflenwi – y gwasanaethau adeiladu a chynnyrch – rhag caethwasiaeth fodern a llafur gorfodol.

Ein dull o drafod diwydrwydd dyladwy

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn datblygu ein dull o drafod diwydrwydd dyladwy.

Gwnaethom gynnal gweithdy ar ddiwydrwydd dyladwy yng nghyswllt hawliau dynol gyda staff allweddol o bob rhan o'r busnes. Hwyluswyd y gweithdy hwn gan gwmni ymgynghori nid-er-elw sy'n arbenigo ar hawliau dynol. Yn dilyn y gweithdy, a'r gwaith dilynol, datblygwyd map gwres hawliau dynol a oedd yn nodi meysydd lle mae'n bosibl yr effeithir yn ddifrifol ar hawliau dynol yn awr ac yn y dyfodol. Cafodd yr effeithiau eu hystyried ar draws gwaith Horizon ei hun a gwaith y gadwyn gyflenwi estynedig gysylltiedig yn awr ac yn y dyfodol ar ôl i'r gwaith adeiladu gychwyn.

Nid ydym wedi gweld unrhyw achosion o gaethwasiaeth fodern yn ein gwaith ar hyn o bryd nac yng ngwaith ein cadwyn gyflenwi bresennol. Ond, nododd y gweithdy ar ddiwydrwydd dyladwy ddau faes lle mae risg bosibl i hawliau dynol yn y dyfodol gan gynnwys y risg o lafur gorfodol a chaethwasiaeth fodern:

- Canfod cynnyrch o ddeunyddiau a chynnyrch isel ei ansawdd o wledydd a allai fod yn wledydd risg mawr.
- Prosesau recriwtio a thelerau talu ar gyfer gweithwyr mudol y gellid eu cyflogi ar y safle adeiladu yn y dyfodol.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn dechrau datblygu mwy ar ein dull o drafod diwydrwydd dyladwy mewn ymateb i'r meysydd risg posibl a nodwyd gennym, fel ein bod yn barod i fonitro a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl ar hawliau dynol ar ôl i'r gwaith adeiladu.

Hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth

Yn y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi codi ymwybyddiaeth a meithrin dealltwriaeth o hawliau dynol a chaethwasiaeth fodern ymysg staff allweddol ar draws y busnes.

- Mynychodd staff o adrannau caffael, cynaliadwyedd, adnoddau dynol, datblygu safle a pheirianeg dechnegol weithdy hanner diwrnod Horizon ar Hawliau Dynol.

NOT PROTECTIVELY MARKED

NOT PROTECTIVELY MARKED

- Mae rhagor o weithdai wedi'u cynnal yn y timau cynaliadwyedd a chaffael craidd i ystyried effeithiau ar ddiwylliant busnes a datblygiad hyn drwy'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cyflenwyr.
- Mae Cod Ymddygiad Horizon wedi cael ei ddiweddarau ac mae Cynaliadwyedd a Hawliau Dynol wrth galon yr adolygiad.

Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar staff caffael Horizon wrth roi hyfforddiant. Disgwylir i'r staff hyn chwarae rôl allweddol yn ein rhaglen diwydrwydd dyladwy ac mae'n bwysig felly fod ganddynt y sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol i allu gwneud hyn. Byddwn yn ymwneud â'n partner EPC hefyd i ddeall yr hyfforddiant a'r gwaith codi ymwybyddiaeth sydd ganddynt ar y gweill.

Mesur effeithiolrwydd ein dull

Wrth i ni ddatblygu mwy ar ein dull o drafod diwydrwydd dyladwy ar gyfer cychwyn y gwaith adeiladu, byddwch yn cychwyn ystyried metrigau priodol i allu mesur effeithiolrwydd parhaus ein dull, a'r mecanweithiau y bydd angen i ni eu cael er mwyn defnyddio'r metrigau hynny. Rydym yn awyddus i ddatblygu ein dull hefyd er mwyn gallu adrodd a dadansoddi mwy.



Duncan Hawthorne

Prif Swyddog Gweithredol

Dyddiad: 25 Medi 2017

NOT PROTECTIVELY MARKED